

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Bapur Syr Michael Lyons The Assembly Government's Response to Sir Michael Lyons Paper

Q7 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the Assembly Government's response to Sir Michael Lyons's interim paper and consultation on the role, function and funding for local government? OAQ0567(LGP)

C7 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i bapur interim ac ymgynghoriad Syr Michael Lyons ar rôl, swyddogaeth a chyllid llywodraeth leol? OAQ0567(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): The Assembly Government intends to submit its response to the consultation paper and interim report within the consultation period, which ends on 13 March. The response is currently being prepared and I will make a copy available to the Local Government and Public Services Committee in due course.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno ei hymateb i'r papur ymgynghori a'r adroddiad interim o fewn y cyfnod ymgynghori, sy'n dod i ben ar 13 Mawrth. Mae'r ymateb yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a byddaf yn sicrhau y bydd copi ar gael i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gyda hyn.

Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd Public Services in Cardiff

Q8 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on the availability of public services in Cardiff? OAQ0606(LGP)

C8 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yng Nghaerdydd? OAQ0606(LGP)

Sue Essex: We are ensuring the availability of public services to Cardiff, for example, with a record £331 million-worth revenue settlement to Cardiff County Council, and

Sue Essex: Yr ydym yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus ar gael yng Nghaerdydd, er enghraifft, gyda'r setliad refeniw mwyaf erioed gwerth £331 miliwn i

around £21 million-worth of investment in projects including the St David's hospital and the children's hospital.

Gyngor Sir Caerdydd a buddsoddiad gwerth tua £21 miliwn mewn prosiectau megis Ysbyty Dewi Sant a'r ysbyty plant.

Datblygu Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ceredigion The Development of Public Services in Ceredigion

C9 Elin Jones: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Chyngor Sir Ceredigion parthed datblygu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0587(LGP)

Q9 Elin Jones: What recent discussions has the Minister had with Ceredigion County Council regarding the development of public services? OAQ0587(LGP)

Sue Essex: Ym mis Rhagfyr 2004, penderfynwyd ar gytundeb polisi gyda chyngor Ceredigion a oedd yn amlinellu'r gwelliannau y byddai'r cyngor, yn unol â'r cytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cyflawni erbyn 2007. Bu perfformiad y cyngor yn 2004-05 yn ddigon da i ennill iddo ail randaliad y grant cymell perfformiad o £781,251.

Sue Essex: I concluded a policy agreement with Ceredigion council in December 2004, setting out the improvements that the council, as agreed with the Welsh Assembly Government, will deliver by 2007. The council's performance in 2004-05 was sufficiently strong for it to receive the second instalment of the performance incentive grant of £781,251.

Casglu Gwastraff Cartrefi yng Nghymru The Collection of Household Waste in Wales

Q10 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the collection of household waste in Wales? OAQ0611(LGP)
Transferred for written answer by the Minister for Environment, Countryside and Planning.

C10 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gasglu gwastraff cartrefi yng Nghymru? OAQ0611(LGP)
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): Local authorities in Wales are increasingly offering kerb-side collection services for households in Wales for recyclable and compostable materials. These services have contributed to the collection of recyclable and compostable materials, measured against National Assembly for Wales performance indicators (which includes some non-household items), increasing to 19.4 per cent in 2004-05.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Mae awdurdodau lleol Cymru yn cynnig mwy a mwy o wasanaethau casgliadau ymyl y ffordd i gartrefi yng Nghymru o ran deunyddiau i'w hailgylchu a'u compostio. Mae'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio i 19.4 y cant yn 2004-05 yn unol â dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sy'n cynnwys rhai eitemau nad ydynt yn ymwneud â'r cartref).

Trefniadau Ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol Funding Arrangements for Local Government

Q11 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the funding arrangements for local government? OAQ0561(LGP)

C11 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau ariannu ar gyfer llywodraeth leol? OAQ0561(LGP)

Sue Essex: The final settlement for local government provides for local authorities in Wales, in 2006-07, to receive an annual

Sue Essex: Mae'r setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol yn rhoi i awdurdodau lleol yn Nghymru gynnydd blynyddol yn 2006-07

increase of 5.1 per cent on the revenue settlement after adjusting for transfers. This amounts to £3.5 billion in unhypothecated funding, together with more than £400 million in specific grants.

o 5.1 y cant yn eu setliad refeniw ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Mae hyn yn gyfystyr â £3.5 biliwn o gyllideb heb ei neilltuo ynghyd â thros £400 miliwn mewn grantiau penodol.

Gwasanaethau Lleol Dwyrain Casnewydd Local Services at Newport East

Q12 John Griffiths: What measures has the Minister taken since 2003 to support Newport East in improving the local services that it delivers? OAQ0593(LGP)

C12 John Griffiths: Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er 2003 i gefnogi Dwyrain Casnewydd yn y gwaith o wella'r gwasanaethau lleol a ddarperir ganddo? OAQ0593(LGP)

Sue Essex: Most of Newport East is served by Newport City Council. I concluded a policy agreement with the council in September 2004, setting out the improvements that it has agreed to deliver by 2007.

Sue Essex: Cyngor Dinas Casnewydd sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o Dwyrain Casnewydd. Ym mis Medi 2004, lluniwyd cytundeb polisi gyda'r cyngor, a oedd yn amlinellu'r gwelliannau y mae wedi cytuno eu gwneud erbyn 2007.

Pwysedd Ariannol yn Abertawe Financial Pressure in Swansea

C13 David Lloyd: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda llywodraeth leol yn Abertawe parthed pwysedd ariannol? OAQ0582(LGP)

Q13 David Lloyd: What recent discussion has the Minister had with local government in Swansea regarding financial pressures? OAQ0582(LGP)

Sue Essex: Trafodwyd ystod eang o bynciau, gan gynnwys materion ariannol, yn un o'm cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol o Abertawe ar 7 Hydref 2005.

Sue Essex: I had one of my regular meetings with local government representatives from Swansea on 7 October 2005, when a wide range of issues, including financial, were discussed.

Cydweithio rhwng Llywodraeth Leol a'r Sector Cyhoeddus Joint Working between Local Government and the Public Sector

Q14 Gwenda Thomas: What is the Welsh Assembly Government doing to encourage joint working between organisations in local government and the public sector? OAQ0550(LGP)

C14 Gwenda Thomas: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog cydweithio rhwng sefydliadau mewn llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus? OAQ0550(LGP)

Sue Essex: Please refer to my earlier response to Denise Idris Jones in Plenary.

Sue Essex: Fe'ch cyfeiriau at fy ymateb i Denise Idris Jones yn y Cyfarfod Llawn.

Cefnogaeth Ariannol i Lywodraeth Leol Financial Assistance for Local Government

C15 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol ar gyfer llywodraeth leol? OAQ0585(LGP)

Q15 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on financial assistance for local government? OAQ0585(LGP)

Sue Essex: Mae'r setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol yn rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnydd blynyddol yn 2006-07 o 5.1 y cant yn eu setliad referniw ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Mae hyn yn gyfystyr â £3.5 biliwn o gyllideb heb ei neilltuo ynghyd â thros £400 miliwn o grantiau penodol.

Sue Essex: The final settlement for local government provides for local authorities in Wales, in 2006-07, to receive an annual increase of 5.1 per cent on the revenue settlement after adjusting for transfers. This amounts to £3.5 billion in unhypothecated funding together with more than £400 million in specific grants.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development

Q12 Sandy Mewies: What action is being taken to promote sustainable development throughout the wider education sector? OAQ0687(ELL)

C12 Sandy Mewies: Pa gamau a gymerir i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd ar y sector addysg ehangach? OAQ0687(ELL)

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): Our education for sustainable development and global citizenship advisory panel has developed a draft all-Wales strategy covering all education and training sectors designed to embed sustainable development into their activities. The strategy has been the subject of consultation and I will be issuing an action plan in early spring.

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Mae ein panel cynghori addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu strategaeth ddrafft ar gyfer Cymru gyfan sy'n cynnwys yr holl sectorau addysg a hyfforddi, gyda'r nod o ymgorffori datblygu cynaliadwy yn eu gweithgareddau. Bu'r strategaeth yn destun ymgynghori a byddaf yn cyflwyno cynllun gweithredu yn gynnar yn y gwanwyn.

Prinder Athrawon yn Rhondda Cynon Taf Shortage of Teachers in Rhondda Cynon Taf

Q13 Leighton Andrews: What action is being taken to attract people to train to teach shortage subjects in schools in Rhondda Cynon Taf? OAQ0639(ELL)

C13 Leighton Andrews: Pa gamau a gymerir i ddenu pobl i hyfforddi i ddysgu pynciau lle ceir prinder athrawon mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf? OAQ0639(ELL)

Jane Davidson: We have a range of financial incentives in place aimed at maintaining or raising applications for places on postgraduate initial teacher training courses in priority subjects. These are supported by work to promote teaching as a career at both the national and local level.

Jane Davidson: Mae gennym nifer o gymhellion ariannol i geisio cynnal neu gynyddu nifer y ceisiadau a wneir am leoedd ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ôl-raddedig mewn pynciau allweddol. Cefnogir y rhain gan y gwaith a wneir i hyrwyddo dysgu fel gyrfa ar lefelau cenedlaethol a lleol.

Anghenion Addysgol Arbennig Special Educational Needs

Q14 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on the treatment of special educational needs in post-16 education? OAQ0654(ELL)

Jane Davidson: Education and Learning Wales, in partnership with local education authorities, funds a range of provision suitable for post-16 students with special educational needs. Provision includes placements at further education colleges, specialist residential colleges and work-based learning providers within Wales and elsewhere in the UK, according to the needs of the individual student.

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut yr ymdrinnir ag anghenion addysgol arbennig mewn addysg ôl-16? OAQ0654(ELL)

Jane Davidson: Mae Dysgu ac Addysgu Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau addysg lleol, yn ariannu ystod o ddarpariaeth sy'n addas ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys lleoliadau mewn colegau addysg bellach, colegau preswyl arbenigol a darparwyr hyfforddiant yn y gweithle yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU, yn ôl angen pob myfyriwr unigol.

Llaeth am Ddim mewn Ysgolion Free School Milk

Q15 Mick Bates: Will the Minister make a statement on the future of the free school milk programme? OAQ0643(ELL)

Jane Davidson: We see milk as an integral part of our healthy schools agenda and will continue our commitment to providing milk to key stage 1 pupils at no cost to parents.

C15 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y rhaglen llaeth am ddim mewn ysgolion? OAQ0643(ELL)

Jane Davidson: Mae llaeth yn rhan annatod o'n hagenda ysgolion iach, a byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu llaeth i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn rhad ac am ddim.